


technocamps

Inspiring | Creative | Fun

Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl



Adeiladu eich Rhyngrwyd eich Hunain: Awgrymiadau Defnyddiol



Rhwydweithio yw cysylltu nifer o gyfrifiaduron â'i gilydd i gyfathrebu. Gellir cysylltu rhwydweithiau mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol trwy ddefnyddio cydrannau gwahanol, mae rhai'n ychwanegu diogelwch uwch neu mae rhai'n cynyddu effeithlonrwydd rhwydwaith. Mae'r rhwydweithiau hyn yn ein galluogi i gydweithio, cael mynediad i'r un wybodaeth neu hyd yn oed rannu mynediad i galedwedd megis peiriannau argraffu!

Er mwyn i rwydwaith weithio'n iawn mae'n rhaid iddo ddilyn detholiad o reolau, a gelwir y rheolau hyn yn "Protocolau", gan alluogi cyfathrebu rhwng cyfrifiaduron sy'n anfon ac yn cael data.

Y Rhyngrwyd yn erbyn y We Fyd Eang

- Mae'r Rhyngrwyd yn rhwydwaith enfawr sy'n cysylltu biliynau o gyfrifiaduron â'i gilydd ledled y Byd.
- Gall cyfrifiaduron gyfathrebu â'i gilydd os yw'r ddau wedi'u cysylltu trwy'r Rhyngrwyd.

- Mae'r we fyd eang yn ffordd o gael mynediad i wybodaeth ar y Rhyngrwyd.
- Mae'n defnyddio Protocol HTTP i drosglwyddo dat trwy'r Rhyngrwyd.
- Mae'r we'n defnyddio porwyr e.e. Explorer, Firefox, Safari neu Chrome.
- Mae'r porwyr yn galluogi'r defnyddwyr i gael mynediad i ddogfennau ar y we o'r enw Tudalennau Gwe

Gall y caledwedd a ddefnyddir mewn rhwydwaith amrywio, fodd bynnag isod ceir rhestr o rai o'r cydrannau y gallech ddod ar eu traws a'u swyddogaeth. Noder: ni fyddwch yn defnyddio'r holl gydrannau hyn yn y gwersyll hyfforddi.

Caledwedd rhwydweithio	Caledwedd	Disgrifiad
	Ceblau ether-rwyd	Technoleg rhwydweithio cyfrifiadurol newid pecynnau ar gyfer rhwydweithiau ardal leol (LANs).
	Offer Crimpio	Caiff ei ddefnyddio i gysylltu cysylltwr â diwedd cebl. Rhoddir pob gwifren yn y cysylltwr a chaiff y cysylltwr ei wasgu yn yr offer.
	Cysylltwr ether-rwyd	Mae'n edrych yn debyg i gysylltwr ffôn, a chaiff ei ddefnyddio i gysylltu un cyfrifiadur i gyfrifiadur arall, modem, DSL neu rwydwaith leol.
	Llwybrydd	Anfon ymlaen pecynnau o ddata ar hyd rhwydweithiau i derfynellau trwy ddefnyddio protocolau i gyfathrebu â'i gilydd.
	Profwr Cebl Rhwydwaith Ardal Leol (LAN)	Caiff ei ddefnyddio i wirio cysylltiadau trydanol mewn cebl.
	Modem	Mae'n galluogi cyfrifiadur i anfon data trwy'r ceblau sydd wedi'u cysylltu.
	Wal Dân	Diogelwch ar gyfer eich rhwydweithio, rheoli traffig trwy wirio'r pecynnau data a'u hanfon/peidio â'u hanfon ymlaen.
	Switsh	Caiff ei ddefnyddio i gysylltu nifer o ddyfeisiau ar rwydwaith â'i gilydd, ac mae'n anfon neges at ddyfais sydd angen y neges ac nid at bob dyfais fel y gwna both.
	Both	Mae'n cysylltu nifer o ddyfeisiau â'i gilydd ac mae'n anfon yr un neges i'r dyfeisiau hynny yn y darn hwnnw o'r rhwydwaith.
	Pont	Mae'n cysylltu Rhwydwaith Ardal Leol i Rwydwaith Ardal Leol arall trwy ddefnyddio'r un protocolau (rheolau).
	Dirprwy Weinydd	Y dyn yn y canol rhwng terfynell a'r rhyngrwyd, er mwyn cynnal monitro a gwaith cynnal a chadw.
	Porth	Mae'n ymddwyn fel porth i rwydwaith arall.

Peidiwch ag anghofio anfon eich prosiectau enghreifftiol atom! Gallem hyd yn oed eu dangos ar ein gwefan neu ar ein tudalen Facebook!

technocamps



www.technocamps.com

